


Nolton Haven

Teithiau Byr




GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 2.8 milltir (4.6 km) 1 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Arfordir garw, (1.5 km o gerdded ar isffyrdd), caeau a da byw

CHWILIWCH AM: Pwll Glo Trefrane • gwiber



Nolton Haven

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr

Pellter: 2.8 milltir (4.6 km)

Cludiant cyhoeddus: *Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM855185

Mae creigiau caletach yn troi yn faeau mwynach gydag arwyddion o'r dreftadaeth ddiwydiannol yn toddi i'r tirwedd...

Chwiliwch am: Pwll Glo Trefrane, gwiber.

Wrth i greigiau hynach a chaletach penrhyn Tyddewi ildio i haenau glo'r cyfnodau Carbonifferaidd (mae cloddio am lo wedi gadael ei farc, gweler olion Pwll Glo Trefrane), mae'r morlin yn meddalu i mewn i draeth a thwyni yn Niwrgwl. Mae symudiad y tonnau yn treulio'r graig feddalach, gan raddio'r deunydd a gadael y darnau mwy garw wrth gefn y traeth fel cerrig mân neu glogfeini. Mae gan Niwrgwl, yn benodol, fanc neilltuol o gerrig mân ar ben uchaf y traeth. Caiff deunydd caletach fel tywod a graean bras eu tynnu yn ôl i lawr y traeth gan yr adlif, i'r draethlin.

Yn Nolton Haven mae'r môr wedi torri i mewn i'r creigiau gwannach i ffurfio bae cysgodol, tywodlyd ym mreichiau pentiroedd bach.

Chwiliwch am wiber ar y gweundir ar gopa'r clogwyni, gyda'u marciau igam-ogam nodweddiadol.

Mae Ian Meopham, Parcmon Sector y Gorllewin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, wedi cerdded y daith hon. Mae'n dweud: "Gellir gweld cigfrain a brain coesgoch yn Rickets Head, a gellir

gweld pori arfordirol ar y daith hon hefyd, ble mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cyflwyno merlod i'r godiroedd i adfer yr ardaloedd arfordirol. Mae olion pwll glo yn atgof o orffennol diwydiannol y rhanbarth."

Cymeriad: Arfordir garw, (1.5 km o gerdded ar isffyrdd), caeau a da byw.

